

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Hydref 2015

Presennol – Gwawr Jones Cadeirydd. Meirion Owen, Janet Charlton, Marion Bettenev, Jim Boughton, Gareth Parry, Caerwyn Roberts, Clerc.

Apologies, Gareth Wynne, Siân Godbert, Terry Bullock. Karen Pugh, Cyng. Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Fedi 2015

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol.

[1.1] Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Dywedodd y clercc bod y Cyng. Elisabeth wedi anfon neges bod Network Rail wedi cytuno i wneud peth gwaith cynnal a chadw.

[1.2] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Materion Priffyrdd/Llinellau Dwbl Melyn

A5 ger Glennwood -Nodwyd y neges gan y Cyng Terry Bullock ei fod wedi cysylltu hefo'r preswylwyr cyfagos ac nad oedd gwrthwynebiad i'r mesur. Y clercc i anfon y neges ymlaen i'r Cynulliad ynghyd hefyd a deiseb gan y trigolion yn cefnogi'r cynnig.

[1.4]Lleoliad i'r Defiliberator

Penderfynwyd bwrw'n mlaen a phrynu defliberator ar gyfer ei osod ar wal allanol y Feddygfa ym Mhentre' Du.

[1.5] Creu Man Chwarae yng Nghae Llan

Y clercc i gysylltu gyda Ystad Lancaster i geisio barn ynglŷn a'r bwriad.

[1.6] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn parhau mewn cysylltiad â'r hanesydd lleol Mr Glyn Jones ynglŷn â'r mater.

[1.7] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Croesawyd Mrs Marian Owen a Haf Jones i'r cyfarfod, ac eglurodd Haf bod posibilrwydd o grant a.y.b. tuag at y cynnig. Gan nodi amcan gost o £8000.00, cytunodd Mrs Marian Owen i geisio 3 amcan bris erbyn diwedd mis Tachwedd.

[1.8] Cae Chwarae Pentre' Du

Dywedodd y clercc ei fod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn a chyflwr y byrddau, penderfynwyd aros ymateb y Cyngor Sir ynglŷn a'r mater.

[1.9] Creu Swigod/Cae Llan

[a] Dywedodd y clercc nad oedd ymateb wedi ei dderbyn i lythyr y Cyngor yn amlinellu'r gost ar gyfer defnyddio'r cae. Y clercc i ysgrifennu eto at y perchennog.

[b] Mynegwyd pryder bod yr hilydd sydd yn disgyn ar y llwybr gyferbyn a'r Ganolfan Groeso yn creu arwyneb llithrig. Y clerc i dynnu sylw APCE at y mater yn amlinellu y dylai'r peiriant creu swigod gael ei ail leoli o dro i dro.

[2] Materion Amrywiol

Adroddodd y clerc fel a ganlyn;

[a] Slabiau anwastad llwybr Cae Llan. Y gwaith wedi ei gwblhau

[b] Crefftwaith gwael i atgyweiriad Pont-y-Pair. Dim ateb oddiwrth y Cyngor Sir.

[b] Mainc wedi torri yn Orsaf Bws ar yr A5 Pentre' Du. Cydnabyddiaeth wedi ei dderbyn oddiwrth y Cyngor Sir

[c] Rheilen wedi torri ar y giât gyferbyn a'r Ganolfan Groeso yn Cae Llan. Wedi ei thrwsio.

[d] Gwastraff wedi ei daflu ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn parhau heb ei glirio. Wedi ei glirio.

[e] Trefniadau mynediad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r toiledau Ffordd yr Orsaf angen sylw. Dim ateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Y brif Agenda

[2.1] Materion Cynllunio

Newid ystafell haul gyfredol gyda ystafell haul newydd to fflat gyda balconi uwchben a.y.b. Golygfa'r Bont, Ffordd Hen Eglwys, Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.2] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Medi 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2015.

[2.3] Gwaharddiad Cyflymder/Ysgol Betws-y-Coed

Nodwyd llythyr gan y Cynulliad yn rhybuddio bod gwaharddiad cyflymder o 20 m.y.a. yn cael ei osod ar Ffordd Gethin a Rhes Dolydd ym Mhentre Du. Hefyd bydd 20 m.y.a. yn cael ei osod dros dro ar briffordd yr A5, a bydd yn cael ei arddangos yn electroneg tra bydd y plant yn cael eu danfon a'i casglu o'r ysgol. Oddi allan i'r cyfnod yma, bydd y terfyn cyflymder arferol yn bodoli.

[2.4] Sioe Deithiol Regetta

Penderfynwyd i ganiatau cais gan Regetta i logi'r neuadd ar gyfer sioe deithiol yn ystod 2016.

[2.5] Cyfeillion Eglwys Saint Mihangel

Cyfeiriodd y clerc at lythyr o ddiolch am gyfraniad y Cyngor at yr Ŵyl Flodau. Nodwyd bydd y gwasanaeth carolau yng ngolau kannwyll yn cael ei gynnal dydd Mercher 30ain Ragfyr 2015 am 6.00 yr hwyr.

[2.6] Gwasanaeth Sul y Cofio

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan y Parch Stuart Elliot yn gwahodd yr aelodau i wasanaeth Sul y Cofio yn y Neuadd Goffa dydd Sul 8fed Dachwedd am 10.45 y.b.

[2.7] Goryrru Traffig

Mynegwyd pryder ynghylch cyflymder cerbydau drwy'r pentref. Y clerc i gysylltu gyda SCHG Phil Gales.

Cadeirydd _____